

Ysgol Dolbadarn

Ionawr 2016

Annwyl riant,

Mae **llythrennedd** yn faes fydd yn derbyn sylw yn y Cynllun datblygu eleni a bydd tri chynllun cyffroes yn cael eu cyflwyno:

1. **Cynllun e-lyfrau RM Books** sef adnodd ar lein ar gyfer llyfrau darllen plant ble bydd y plant yn gallu dewis a dethol llyfrau yn electroneg- bydd modd i'r plentyn wneud cais i'r athro am lyfr a bydd wedyn yn gallu mewngofnodi a defnyddio y system adref hefyd. Mae BI5+6 yn treialu yr adnodd ar hyn o bryd.

2. **Tric A Chlic (Peniarth)** Cynllun llythrennedd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sydd yn seiliedig ar adnabod ffurfio llythrennau gan gynnwys cyfuno llythrennau i ddechrau adeiladu geiriau. Bydd athrawon yn tracio ac asesu dealltwriaeth a datblygiad eich plentyn yn gyson.

Mae gwefan Peniarth yn cynnig adnoddau ar gyfer y cartref am brisiau rhesymol(www.canolfanpeniarth.org/cy/tric-a-chlic.php) Ti a Fi adnoddau i'r cartref.

Mae App 'Tric a Chlic' App ar gael o iTunes.

3. **Geirio Gwych/The Big Write** – Mathew McAvoy- cynllun ar gyfer disgyblion B2-6 sy'n hyrwyddo sgilliau llythrennedd mewn ysgrifennu. Bydd y plant yn adeiladu eu tasgau ysgrifennu yn raddol cyn ysgrifennu tasg gorffenedig gan ddefnyddio Gwych Eiriau. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan <http://www.andrelleeducation.com> a dewis Geirio gwych/Big Write.

Yn ystod ei hyfforddiant yn ddiweddar cyflwynodd Mathew MCAvoy y dywediad hwn i staff yr ysgol:

'If I can't say it- I can't write it!!'

Awgrymodd ein bod yn treialu cynllun sy'n hyrwyddo sgwrsio a thrafodaethau yn y cartref sydd wedi eu cyflwyno a datblygu yn yr ysgol. Byddem yn cyflwyno testun trafod i holl ddisgyblion yr ysgol pob pythefnos a gofynnwn yn garedig i chwi drafod y testun hwnnw adref fel bod eich plentyn yn gallu ymuno gyda'r sgwrs. Y bwriad ydy ein bod yn cyfoethogi sgilliau trafod disgyblion fel eu bod yn datblygu eu sgilliau ysgrifennu ymhellach.

Byddem yn gyrru neges destun pob yn ail ddydd Gwener yn cyflwyno'r testun trafod i chi a gofynnwn yn garedig i chwi drafod y testun fel teulu yn ystod y penwythnos/wythnos ddilynol am ryw 5 munud. Bydd y plant yn trafod hyn yn y dosbarth ac yn y gwasnaeth ar ddydd Gwener.

Y gobaith yw y bydd eich plentyn yn datblygu sgilliau gwranddo a chyfathrebu cadarn a fydd yn ei alluogi i ddatblygu ei sgilliau ysgrifennu ymhellach. Dyma enghreifftiau o destunau trafod

e.e Beth yw'r peth gorau am fod yn blentyn?
Pe byddwn i'r ofodwr fe fyddwn i yn....
Y cymeriad mwyaf doniol mewn cartwn
Y llyfr gorau yn y Byd yw....

Mwynhewch!

